LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# LLAIS

## EICH LLAIS MEWN IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

**Os ydych chi'n anhapus â'r gofal iechyd neu'r gofal cymdeithasol rydych chi neu rywun arall yn ei dderbyn ar hyn o bryd, siaradwch â ni**

**Mae eich llais yn gryfach nag erioed**



Llais yw'r **corff cenedlaethol, annibynnol** a sefydlwyd i roi llais i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Gallwn eich helpu i wneud cwyn yn effeithiol i chi ac i eraill oherwydd bod cwynion yn sicrhau bod ein gofal yn y dyfodol yn well ac yn atal yr un peth rhag digwydd eto.





## Ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion

Os ydych chi eisiau cwyno, mae ein staff eiriolaeth hyfforddedig yn darparu'r cymorth annibynnol, cyfrinachol a rhad ac am ddim y mae gennych hawl iddo.

Byddant yn gwrando ar eich pryderon ac yn:

- **eich cefnogi i wneud cwyn am wasanaeth, gofal neu driniaeth a ddarperir neu y telir amdanynt gan y GIG neu'r awdurdod lleol**
- **eich cefnogi i wneud cwyn dros rywun arall, gan gynnwys os yw rhywun wedi marw**
- **eich rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau eraill os ydym yn credu y gallant helpu hefyd**
- **ateb eich cwestiynau am y broses ac esbonio eich opsiynau**
- **darparu canllaw cam wrth gam i'r broses**

I gael gwybod mwy ewch i llaiscymru.org neu ffoniwch eich tîm Llais lleol a bydd un o'n tîm yn siarad â chi am eich pryder, pa fath o help rydych chi'n meddwl sydd ei angen arnoch ac a oes gennych unrhyw anghenion penodol fel deunyddiau print bras neu fynediad at rywun sy'n gallu llofnodi.

Mae ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion hefyd ar gael yn yr iaith Gymraeg.

Os **gallwn** eich helpu, byddwn yn dweud wrthych sut. Os na allwn, byddwn yn gwneud **ein gorau** i gynghori pwy all.



## Bod yn rhan o rywbeth pwysig

Rydyn ni yma i sicrhau bod barn a phrofiadau pobl yn helpu i wneud gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well i bawb.

I gael gwybod mwy am Llais a sut y gallwch chi gymryd rhan mewn gwella iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gyda ni, cysylltwch â'ch tîm Llais lleol neu ewch i **www.llaiscymru.org**

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch hefyd ei lawrlwytho o'n gwefan neu cysylltwch â ni i ofyn am gopi.

# EICH TÎM LLAIS LLEOL

### Caerdydd a Bro Morgannwg
Yn cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg.

**Ffôn:** 029 2375 0112

**E-bost:** cardiffandvaleenquiries@llaiscymru.org

### Cwm Taf Morgannwg
Yn cwmpasu Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

**Ffôn:** 01443 405830

**E-bost:** cwmtafmorgannwgenquiries@llaiscymru.org

### Gwent
Yn cwmpasu Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.

**Ffôn:** 01633 838516

**E-bost:** gwentenquiries@llaiscymru.org

### Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe
Yn cwmpasu Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

**Ffôn:** 01639 683490

**E-bost:** nptandswanseaenquiries@llaiscymru.org

### Gogledd Cymru
Yn cwmpasu Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.

**Ffôn:** 01978 356178 / 01248 679284

**E-bost:** northwalesenquiries@llaiscymru.org

### Powys
Yn cwmpasu Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Sir Faesyfed.

**Ffôn:** 01874 624206 / 01686 627632

**E-bost:** powysenquiries@llaiscymru.org

### Gorllewin Cymru
Yn cwmpasu Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

**Ffôn:** 01646 697610

**E-bost:** westwalesenquiries@llaiscymru.org

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg, ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

© Llais 2023
47256

YMDDIRIEDAETH • CYNWYSOLDEB • ANNIBYNIAETH